**WHC 2017- 042**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi: 23 Hydref 2017**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: GWEITHLU**

**Teitl: Rhoi sylw i effaith defnydd GIG Cymru o Staff Asiantaeth a Locwm Meddygol a Deintyddol**

**Dyddiad Adolygu 31 Mawrth 2018**

**I'w weithredu gan:**
Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

**Angen gweithredu erbyn: 3 Tachwedd ymlaen**
**Mae cyfres o gamau gweithredu'n ofynnol o ganlyniad i'r Cylchlythyr hwn, gyda'r amserlen i'w gweld yn adran 4.**

**Anfonwyd gan: Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru.**

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**
Helen Arthur neu Stephanie Sampson, y Tîm Cyflog a Chontractau, Cyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.
Cysylltwch â payandcontracts@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch 0300 0258404

**Dogfen(nau) amgaeedig:**

At holl Brif Weithredwyr
Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Cymru

C.C. Prif Swyddog Meddygol, Cyfarwyddwyr Cyllid, Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Cyfarwyddwyr Meddygol

**Rhoi sylw i effaith defnydd GIG Cymru o Staff Asiantaeth a Locwm Meddygol a Deintyddol**

**Camau i'w cymryd - Mae cyfres o gamau gweithredu'n ofynnol o ganlyniad i'r Cylchlythyr hwn, gyda'r amserlen i'w gweld yn adran 4.**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r Cylchlythyr hwn yn gosod y trefniadau ar gyfer rhaglen o gamau gweithredu cyson wedi'u cydlynu ar draws GIG Cymru gyda'r nod o ostwng defnydd a gwariant ar staff asiantaeth a locwm, gan barhau i ddarparu gwasanaeth diogel a chynaliadwy ar draws Cymru. Datblygwyd y cynigion mewn partneriaeth â GIG Cymru a gwaith manwl a wnaed gan Grŵp Effeithlonrwydd Gweithlu Meddygol Cymru.

2. Rydym am i'r rhaglen annog pobl i ddychwelyd i farchnad lafur y GIG, gan wella cyflenwad rheolaidd y gweithlu ac ansawdd a chysondeb y gofal i gleifion; sicrhau tegwch a thryloywder systemau gwobrwyo a lleihau'r gystadleuaeth cyflogau mewnol; a gostwng gwariant cyffredinol wrth i ni ganolbwyntio ar yr achosion sylfaenol. Byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni'r manteision hyn drwy'r rhaglen.

3. Bydd y rhaglen Asiantaeth a Locwm yn cynnwys:

   - Fframwaith rheolaeth cenedlaethol clir yn nodi terfynau a thargedau ar gyfer defnydd a gwariant asiantaeth a locwm.

   - Swyddogaethau a chyfrifoldebau clir i'w gweithredu ar draws y system.

   - Trefn gadarn, dryloyw ar gyfer rheoli perfformiad, gyda

     - Sefydliadau unigol yn paratoi a chyflawni cynlluniau gweithredu a rhagamcanion i fodloni targedau a osodwyd yn genedlaethol;
     - Craffu ar berfformiad yn erbyn cynlluniau a thargedau, ar lefel genedlaethol a lefel y Bwrdd;
     - Gallu canolog ar gyfer craffu, adnabod a rhannu arferion effeithiol ac ymyraethau wedi'u targedu i roi sylw i faterion neu flaenoriaethau penodol drwy sefydlu Uned Gyflawni'r Gweithlu.

4. **Bydd y  trefniadau newydd yn dod i rym ar 13 Tachwedd 2017**.

5. Y bwriad yw datblygu'r rhaglen ymhellach ar sail gwybodaeth a thystiolaeth newydd am ei gweithredu a'i effaith, ac ysgogi manteision o'r rhaglen dros nifer o flynyddoedd.

6. Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn gosod gofynion y rhaglen a'r camau i'w cymryd o fewn Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd i baratoi ac wrth ei rhoi ar waith.

7. **Mae cyfres o gamau gweithredu'n ofynnol o ganlyniad i'r Cylchlythyr hwn, gyda'r amserlen i'w gweld yn adran 4.**

8. **Mae'r rheolau sydd wedi'u gosod yn y Cylchlythyr hwn ond yn berthnasol i staff meddygol a deintyddol GIG Cymru.**

9. **Ymarferwyr Cyffredinol -** nid ydynt yn dod o dan y rheolau ar hyn o bryd, ond bydd gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddeall lefel y gwariant yn y maes hwn ac ystyried a fyddai manteision eu cynnwys yn y trefniadau yn y dyfodol.

10. **Nyrsys -** mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i leihau’r defnydd o nyrsys asiantaeth ac fe lwyddwyd i sicrhau newid sylweddol hyd yma. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd wrth ochr y gwaith ar asiantaethau a locwm meddygol ac yn ystyried a oes angen gwneud mwy yn y dyfodol.

**Adran 1 - Swyddogaethau a chyfrifoldebau clir i'w gweithredu ar draws y system.**

11. I sicrhau manteision y rhaglen hon mae angen camau gweithredu cyson ar draws Cymru, gyda dealltwriaeth glir o'r swyddogaethau ar bob lefel yn y system.

**1.1 Bydd y Llywodraeth yn:-**

- Gosod y cyfeiriad strategol a phwysleisio ymrwymiad at weithredu'n gyflym ar draws y system

- Gweithio gyda GIG Cymru i sefydlu dull gweithredu ar draws Cymru gyfan i sicrhau cysondeb

- Sefydlu a gweithredu trefn genedlaethol ar gyfer rheoli perfformiad ac Uned Gyflawni'r Gweithlu i ysgogi a helpu i'w rhoi ar waith.

**1.2 Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd y GIG**

- Pennu unigolyn ar lefel Gweithredol i gymryd cyfrifoldeb dros ysgogi'r gwaith hwn yn eu sefydliadau a bod yn atebol am berfformiad.

- Datblygu cynlluniau clir a manwl ar gyfer gweithredu'r drefn newydd yn eu sefydliadau eu hunain, gan gynnwys rheoli'r effeithiau tymor byr, canolig a hir ar ddarpariaeth gwasanaethau a datblygu dealltwriaeth gadarn o'r peryglon posib a'u lliniaru

- Sefydlu systemau rheoli cadarn ar gyfer defnyddio staff asiantaeth a locwm, gyda threfniadau craffu effeithiol, a gweithredu'r rheolaethau hyn yn gyson

- Ysgwyddo'r drefn rheoli perfformiad

- Ysgogi rheolaeth weithredol y cynllun yn eu sefydliadau gan gynnwys rheoli risg a'r strategaeth liniaru.

**1.3 Lefel weithredol o fewn Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd y GIG**

- Pawb sy'n ymwneud ag archebu a defnyddio staff asiantaeth a locwm i gael dealltwriaeth glir o'r fframwaith rheolaeth newydd a'r dulliau gweithredu yn eu sefydliadau eu hunain, a'u gweithredu'n effeithiol.
- Rheolaeth gadarn a chreadigol o'r gwasanaethau sy'n cael ei heffeithio gan y newidiadau er mwyn effeithio cyn lleied â phosib ar ddarpariaeth gwasanaethau a lleddfu'r effaith ar yr unigolion dan sylw.

- Darparu adborth cyflym i uwch reolwyr ar faterion sy'n dod i'r amlwg

**Adran 2 - Fframwaith rheoli defnydd a gwariant ar staff asiantaeth a locwm**

12. Rydym yn cyflwyno fframwaith rheolaeth sydd wedi'i lunio i helpu Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd i leihau eu defnydd a'u gwariant ar staff asiantaeth a locwm a sicrhau cysondeb o ran taliadau oriau ad hoc staff locwm mewnol.

    Dan y fframwaith hwn:

    1. Rhaid i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd ond ddefnyddio'r cytundeb fframwaith a gymeradwywyd (sef *Crown Commercial Services (CCS); RM3711 Multidisciplinary Temporary Healthcare Personnel Framework* - gweler nodyn i isod) i gaffael pob gweithiwr asiantaeth meddygol a deintyddol.

    2. Bydd cap pris yn cael ei osod ar gyfer yr holl weithwyr asiantaeth meddygol a deintyddol o 13 Tachwedd 2017 ymlaen. Gellir gweld y capiau yn Atodiad i a dyma uchafswm y taliadau a ganiateir.

    3. Disgwylir i bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd sicrhau gostyngiad o 35% mewn gwariant ar asiantaethau allanol erbyn diwedd mis Hydref 2018 o'r gwariant yn y 12 mis cyn cyflwyno'r trefniadau hyn (hynny yw rhwng 1 Tachwedd 2016 a 31 Hydref 2017). Bydd targedau sefydliadau unigol yn cael eu cytuno gyda'u prif swyddog gweithredol penodol.

    4. Y cap hwn yw'r uchafswm y gellir ei dalu ac ni ddylid ei weld fel targed. Disgwylir i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd weithio i ostwng gwariant ar asiantaethau islaw'r lefelau hyn. Ni ddylai unrhyw weithwyr asiantaeth gael eu talu ar raddfa uwch na'r hyn y mae'ch sefydliad wedi'i dalu iddynt yn y 12 mis diwethaf.

    5. Nid oes modd talu am oriau Ad Hoc Locwm mewnol (gweler y diffiniad yn nodyn ii isod) ar gyfradd uwch na'r cap o 27 Tachwedd 2017 ymlaen, ac nid oes modd i'r gyfradd fesul awr gynyddu i fod yn uwch na'r gyfradd a dalwyd ar 13 Tachwedd.

    6. Rhaid i bob sefydliad ddatblygu proses uwchgyfeirio mewnol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw achos o dorri'r meini prawf a nodir yn 1-5 uchod gael ei awdurdodi ar lefel weithredol, yn dilyn asesiad cadarn o'r effaith ar ddiogelwch y claf.

**Nodiadau a diffiniadau**

13. **Nodyn i - Hysbysu Asiantaethau** - bydd Tîm Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cyhoeddi llythyr i'r Asiantaethau sy'n gweithredu yng Nghymru, yn gosod y trefniadau newydd a'r camau sydd angen eu cymryd. Mae hyn yn egluro mai'r cytundeb fframwaith sydd wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd yng Nghymru yw *Crown Commercial Services (CCS); RM3711 Multidisciplinary Temporary Healthcare Personnel*. Bydd angen i unrhyw sefydliad sy'n defnyddio Asiantaethau eraill y tu allan i'r fframwaith a gytunwyd gael ei gymeradwyo ar lefel Weithredol fel achos o

dorri'r rheolaethau sy'n cael eu gosod yn y Cylchlythyr hwn.

14. Mae'n bosib bod Asiantaethau eraill, nad ydynt ar restr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cael eu defnyddio gan sefydliadau unigol ar hyn o bryd, ac er cysondeb rydym am sicrhau eu bod hwy hefyd yn derbyn llythyr. Bydd y Bartneriaeth yn cydlynu gyda phob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd i sicrhau fod hyn yn digwydd, ac i adeiladu darlun llawn o'r holl Asiantaethau sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd.

15. **Nodyn ii - Gwaith cyflenwi locwm ad hoc** – gall gael ei ddarparu gan staff parhaol fesul shifft ychwanegol (hynny yw ychwanegol at oriau / sesiynau sy'n rhan o'r contract) neu gan unigolion sy'n cael eu cyflogi ar delerau ad hoc. Mae'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio i ddisgrifio'r math o waith cyflenwi ad hoc y cyfeirir ato uchod yn amrywio gan gynnwys:

- Oriau ychwanegol ar ddyletswydd;
- Gwaith cyflenwi locwm mewnol;
- Banc Meddygol Mewnol;
- Gwaith cyflenwi locwm ad hoc.

16. At ddibenion y cap pris, bydd y math hwn o gyflenwi'n cael ei ddiffinio fel 'Gwaith Cyflenwi Locwm Ad Hoc Mewnol', ac yn cynnwys yr holl ddisgrifiadau uchod.

17. Nid oes modd cynyddu neu ail-negodi cyfraddau taliadau locwm ad hoc mewnol yn uwch o 13 Tachwedd 2017 ymlaen, ac ni ddylai hyn fod yn uwch na'r cyfraddau sydd wedi'u gosod yn Atodiad i.

18. **Nodyn iii - Teithio a Llety -** bydd y cap ar y cyfraddau fesul awr sy'n daladwy i asiantaeth yn cynnwys cyflog y gweithiwr a'r holl elfennau eraill fel costau teithio a llety. Ni fydd hawl gan weithwyr asiantaeth i gael unrhyw daliadau ychwanegol ar gyfer teithio i'r gwaith ac yn ôl na chostau llety. Os oes angen teithio rhwng safleoedd i gyflawni gofynion y gwaith, gellir ad-dalu'r costau yn ddarostyngedig i drefniadau'r Bwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd lleol. Os bydd modd i weithiwr asiantaeth aros mewn llety sy'n eiddo i'r Bwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd, bydd strwythur ffioedd arferol y Bwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd yn berthnasol.

**19.** **Nodyn iv - Trefniadau sydd eisoes yn bodoli -** gellir anrhydeddu unrhyw drefniadau a wnaed cyn cyhoeddi'r cylchlythyr hwn yn ôl y gyfradd a negodwyd, ond dylid gwneud pob ymdrech i ail-negodi’r cyfraddau ar i lawr. Rhaid i unrhyw drefniadau gwaith newydd ar ôl 13 Tachwedd fod yn is na'r cap neu gael ei awdurdodi ar lefel weithredol fel achos o dorri'r rheolaethau.

## Adran 3 - Trefn rheoli perfformiad cenedlaethol

**20.** Wrth baratoi ac wrth roi'r rhaglen hon ar waith, byddwn yn casglu tystiolaeth am y sefyllfa bresennol ac effaith y newidiadau. Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio i drafod y cynnydd ac i lunio polisi yn y maes hwn yn y dyfodol. Yn bwysicach na hynny, bydd hefyd yn ein galluogi i adnabod materion eraill sy'n arwain at yr angen i ddefnyddio staff asiantaeth a locwm ac i roi sylw i'r rhain mewn partneriaeth drwy rannu arbenigedd ac arfer effeithiol ar draws Cymru.

**21.** Rydym yn disgwyl i ansawdd a dyfnder yr wybodaeth am ddefnyddio asiantaethau a locwm wella a datblygu wrth ddechrau rhoi'r rhaglen ar waith. Mae'r trefniadau sy'n cael eu gosod yma'n cynnig dull gweithredu cychwynnol ar gyfer casglu tystiolaeth a rheoli perfformiad. Bydd y dull gweithredu hwn yn cael ei ddatblygu a'i fireinio dros amser mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y GIG a bydd arweiniad pellach yn cael ei gynnig yn achlysurol.

**22.** Rydym yn disgwyl i'r Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd wneud y canlynol o leiaf:

**Cam 1 - Rhaid i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd baratoi a chyflawni cynlluniau gweithredu a rhagamcanion i fodloni targedau a osodwyd yn genedlaethol**

- Rhaid i'r holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd bennu unigolyn penodol ar lefel weithredol i arwain y gwaith cynllunio a chyflawni ar eu rhan.

- Er bod arweinydd gweithredol asiantaeth a locwm yn cael ei enwi - bydd gan Swyddogion y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Cyfarwyddwyr Meddygol, Cyfarwyddwyr Cyllid a Phrif Swyddogion Gweithredol swyddogaeth bwysig yn rhoi'r rhaglen ar waith. Dylai cynllun y sefydliad osod y swyddogaethau hyn yn glir a disgrifio'r systemau ar gyfer cydlynu.

- Rhaid i sefydliadau baratoi cynllun gweithredu ar gyfer cyflwyno'r capiau a'r terfynau newydd i fodloni gofynion y system newydd a chyflwyno gostyngiad yn y defnydd o staff asiantaeth a locwm. Dylai drafft cyntaf y cynllun osod cynlluniau manwl hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol ym mis Mawrth 2018, a chynlluniau amlinellol ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Hydref 2018.

- Rhaid i'r cynllun gynnwys, o leiaf:

    - Data gwaelodlin yn amcangyfrif gwariant y sefydliad ar staff asiantaeth a locwm, gan gynnwys manylion y rhaniad rhwng staff asiantaeth allanol a chyflenwi locwm ad hoc mewnol. Wrth ochr hyn dylid cynnwys esboniad o'r ffordd y cyfrifwyd y gwaelodlin ac asesiad o faint o hyder sydd yng nghywirdeb y data a ddarparwyd;

- manylion y fframwaith rheoli ar gyfer gwariant asiantaeth a chyflenwi locwm ad hoc mewnol (gan gynnwys rheolaethau yn ymwneud ag adnabod yr angen am waith cyflenwi ychwanegol gan asiantaeth neu locwm, y fframwaith penderfyniadau i weld sut y bydd y gwaith cyflenwi ychwanegol hwn yn cael ei ddarparu, a'r systemau sy'n cael eu defnyddio i sicrhau fod unrhyw wariant sy'n syrthio tu hwnt i'r cyfraddau wedi'u capio yn cael ei awdurdodi ar lefel weithredol);

- esboniad o'r ffordd y bydd y Bwrdd yn cael ei sicrhau fod y fframwaith rheoli yn gweithredu'n effeithiol;

- asesiad risg o'r cynlluniau arfaethedig i'w roi ar waith, a'r ffyrdd y bydd y peryglon yn cael eu lliniaru neu eu rheoli;

- rhagamcan o'r arbedion posibl a ddaw drwy'r cynllun dros gyfnod o ddeuddeg mis.

23. Rhaid i'r Bwrdd graffu a chymeradwyo'r cynllun cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru - payandcontracts@wales.gsi.gov.uk erbyn 3 Tachwedd 2017.

**Cam 2 - Craffu ar berfformiad yn erbyn cynlluniau a thargedau**

24. **Ar lefel Bwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd**

- Rhaid i'r arweinydd gweithredol dynodedig baratoi adroddiadau misol ar gynnydd i graffu ar lefel y Bwrdd. Dylai'r rhain adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun, a chynnwys o leiaf:

  - asesiad o effeithiolrwydd y fframwaith rheoli a gwybodaeth ynghylch unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i wersi a ddysgwyd wrth weithredu;

  - asesiad risg wedi'i ddiweddaru gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o unrhyw faterion ymarferol a gododd wrth roi ar waith, a'r ffordd y bydd y peryglon yn cael eu lliniaru neu eu rheoli;

  - cymharu'r arbedion gwirioneddol o gymharu â'r rhagamcanion ac asesiad o'r hyder yng nghywirdeb y data.

  - rhestr ddienw o nifer y gweithwyr asiantaeth a dderbyniodd daliadau uwch na'r cyfraddau wedi'u capio, gan gynnwys manylion ynghylch nifer yr oriau/sesiynau a ddarparwyd a'u harbenigedd;

- crynodeb dienw o’r gwariant ar bob un o'r deg gweithiwr asiantaeth a gafodd y taliad uchaf (sef y rhai a dderbyniodd y gyfradd uchaf fesul awr), gan gynnwys manylion yr oriau/shifftiau a weithiwyd, eu harbenigedd a hyd yr aseiniad presennol gyda'r sefydliad;

- crynodeb dienw o'r deg gweithiwr asiantaeth sydd wedi gwasanaethu am y cyfnod hwyaf, sef y rhai sydd wedi gweithio am y cyfnod hwyaf yn ddi-dor, gan gynnwys eu harbenigedd, manylion yr oriau/shifftiau a weithiwyd a hyd yr aseiniad;

- crynodeb dienw o nifer yr eithriadau a awdurdodwyd ar gyfer cyflenwi locwm ad hoc mewnol sy'n uwch na'r cap a gytunwyd, gan gynnwys nifer yr oriau/sesiynau a gyflawnwyd a'u harbenigedd;

- crynodeb dienw o’r gwariant ar bob un o'r deg gweithiwr locwm ad hoc gafodd eu talu fwyaf, gan gynnwys manylion yr oriau/shifftiau a weithiwyd;

- crynodeb dienw o unrhyw unigolyn a dderbyniodd fwy na £120 yr awr gan gynnwys eu harbenigedd, manylion yr oriau / shifftiau a weithiwyd, a ydynt yn darparu gwasanaeth cyflenwi locwm ad hoc mewnol, neu wedi'u darparu gan asiantaeth a hyd yr aseiniad ar gyfer staff asiantaeth;

- Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu templed safonol ar gyfer y data gofynnol a fydd yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda chydweithwyr yn y GIG. Rhaid cyflwyno copi o'r adroddiadau hyn i Lywodraeth Cymru erbyn 17eg o bob mis.

- Pan fydd y Bwrdd wedi craffu ar yr adroddiadau, rhaid i gopi o gofnodion y Bwrdd sy'n cynnwys eu sylwadau a'u gwaith craffu hefyd gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**25. Ar lefel genedlaethol**

- Bydd rhaid craffu ar yr adroddiadau misol a fydd yn dod i law Llywodraeth Cymru, a bydd unrhyw gwestiynau neu faterion sy'n codi yn cael eu cyfeirio at yr unigolyn a enwebwyd i arwain y gwaith ar ran y sefydliad.

- Bydd y cynnydd yn destun craffu drwy adroddiadau rheolaidd i Fwrdd Gweithredol GIG Cymru.

- Bydd cynnydd o fewn sefydliadau unigol hefyd yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd rheolaidd o'r Tîm Cydweithredol, cyfarfodydd uwchgyfeirio ymyrraeth wedi'i dargedu a thrafodaethau rheoli perfformiad unigol Prif

Weithredwyr GIG Cymru gyda Phrif Weithredwyr y sefydliadau.

## 26. Sefydlu Uned Gyflawni'r Gweithlu

- Bydd Uned Gyflawni'r Gweithlu'n cael ei sefydlu i ddarparu gallu canolog i graffu ar gynlluniau a symud ymlaen yn erbyn y targedau oddi mewn iddynt, gan bennu a rhannu arferion effeithiol, ac arwain ymyraethau wedi'u targedu i roi sylw i faterion neu flaenoriaethau penodol.

## Adran 4 - Paratoi ar gyfer gweithredu

27. Mae'r tabl isod yn gosod y camau gweithredu i'w cymryd o ganlyniad i'r cylchlythyr hwn - rhaid i'r holl ohebiaeth gael ei hanfon at payandcontracts@wales.gsi.gov.uk

| Mater | Cam gweithredu | Erbyn |
|---|---|---|
| Enwi arweinydd | Darparu enw a manylion cyswllt y person sy'n cael ei enwebu fel arweinydd ar lefel weithredol ar gyfer y gwaith hwn.<br><br>Bydd yr unigolyn hwn yn gweithredu fel swyddog cyswllt i Lywodraeth Cymru ar faterion asiantaeth a locwm, ac yn arwain mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am y cynlluniau, ac yn rhoi tystiolaeth am y cynnydd a wnaed i leihau'r ddibyniaeth ar ddefnyddio asiantaethau a locwm | Ar unwaith |
| Ysgrifennu at yr holl Asiantaethau sy'n gweithio yng Nghymru | Trafod gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r holl asiantaethau sy'n cyflenwi staff meddygol. Bydd y Bartneriaeth Cydwasanaethau'n cysylltu â'r holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd | |
| Sefydlu trefniadau | Sicrhau bod eich trefniadau yn eu lle, eu bod yn gadarn ac yn unol â'r canllawiau hyn. | Parhaus |
| Cynllun Sefydliadol i gyflawni targedau | Cyflwyno cynllun eich sefydliad i gyflwyno capiau a chyflawni targedau o fewn 12 mis i 31 Hydref 2018. | Dydd Gwener 3 Tachwedd |
| Cap ar gyfraddau yn dod i rym | 13 Tachwedd 2017 ar gyfer staff asiantaeth<br>27 Tachwedd ar gyfer locwm ad hoc mewnol | 13 a 27 Tachwedd |
| Cyflwyno data ynghylch cynnydd | Cyflwyno adroddiad eich sefydliad yn gosod y cynnydd yn erbyn y cynllun yn unol â'r gofynion yn adran 3.<br><br>Bydd yr adroddiad cyntaf yn adroddiad naratif byr ar yr ychydig wythnosau cyntaf i'w gyflwyno erbyn 15 Rhagfyr, ac fe ddarperir templed ar gyfer yr adroddiad.<br><br>Disgwylir adroddiad safonol yn cyfateb i'r gofynion yn adran 3 erbyn 17 Ionawr fan bellaf ac yna bob mis ar ôl hynny.<br><br>Bydd y broses rheoli perfformiad yn cael ei datblygu ymhellach a'i mireinio dros amser ac fe fyddwn yn diweddaru'r canllawiau fel y bo'n briodol. | Adroddiad 1af i ddod i law erbyn 15 Rhagfyr ac yna erbyn 17eg bob mis ar ôl hynny |

**Atodiad I - Cap ar gyfraddau fesul awr**

| Gradd a math o shifft | | Cap ar gyfradd fesul awr |
|---|---|---|
| Sylfaen Blwyddyn 1 | Craidd | £32.54 |
| Sylfaen Blwyddyn 2 | Craidd | £40.36 |
| Cofrestrydd (SP1-2) / Hyfforddiant Meddygol Craidd | Craidd | £45.76 |
| Cofrestrydd (SP3+) | Craidd | £57.05 |
| Hyfforddiant Deintyddol Craidd | Craidd | £56.15 |
| Meddyg Arbenigol / Gradd Staff | Craidd | £66.43 |
| Arbenigwr Cyswllt | Craidd | £82.21 |
| Meddyg Ymgynghorol | Craidd | £97.22 |

**Noder:**

**Nid yw'r capiau yn cynnwys TAW.**

Dyma gyfanswm y gyfradd i'w thalu i asiantaethau sy'n cyflenwi staff meddygol a deintyddol yng Nghymru. Mae'n cynnwys yr holl gostau ychwanegol, er enghraifft comisiwn asiantaethau, lwfans tâl gwyliau, costau teithio a chostau llety.

Ar gyfer staff sy'n darparu gwasanaeth cyflenwi locwm ad hoc mewnol, mae'r swm hwn yn cynnwys yr holl gostau ond nid yw'n cynnwys argostau'r cyflogwr nac argostau'r gweithiwr cyflogedig.